

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 14 Hydref 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 20 HYDREF 2020 am 10.00 am yn TRWY GYFRWNG VIDEO.**

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY VIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### RHAN 1 – SESIWN AGORED

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYNS

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 (copi ynghlwm).

## RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

### GWAHARDD Y WASG

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

#### **5 DULL ARFAETHEDIG I DENDRO AR GYFER CAM 1/ GALLUOGI CONTRACT GWAITH AR GYFER ESTYNIAD YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY GAN GYNNWYS GORSAF TROSLWYDDO GWASTRAFF CSDD** (Tudalennau 19 - 40)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflawni'r ymarfer tendro arfaethedig i adnabod prif gontractwr i ddarparu Cam 1/ Galluogi Contract Gwaith ar gyfer rhoi estyniad i Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.

### RHAN 1 – SESIWN AGORED

#### **6 EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU – ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N BERTHNASOL I GAEL GWARED AR DIR YN YMYL YSGOL PENDREF, DINBYCH** (Tudalennau 41 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau (copi ynghlwm) yn nodi casgliadau y daeth y Pwyllgor Craffu iddynt yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet a alwyd i mewn ar 22 Medi 2020, o ran cael gwared ar dir yn ymyl Ysgol Pendref ac argymhellion i'r Cabinet i ailedrych ar ei benderfyniad i ystyried casgliadau'r Pwyllgor Craffu ac argymhellion pellach.

#### **7 ESTYNIAD I FFRAMWAITH HAMDDEN Y DU Y CYNGOR** (Tudalennau 67 - 70)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) a Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi estyniad i Fframwaith Hamdden y DU y Cyngor tan fis Ionawr 2022.

#### **8 CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS** (Tudalennau 71 - 94)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses gaffael ar gyfer contract gwaith gyda Chontractwyr Cael Gwared ar Asbestos.

#### **9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 95 - 116)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

## 10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 117 - 120)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

### MEMBERSHIP

#### Y Cynghorwyr

Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon

Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young

#### COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 22 Medi, 2020 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Alan James, Gwyneth Kensler, Paul Penlington, Peter Scott, Rhys Thomas ac Emrys Wynne.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democraidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG); Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC); Rheolwr Rhaglen – Datblygu Tai (MD); Prif Syrféwr Prisio Siartredig ac Ystadau (MJ); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK); Swyddog Arweiniol - Rheoli Asedau Strategol (TB); Rheolwr Prosiect (RV); Cydlynnydd Craffu (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

## MATERION O HYSBYSIAD

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Lleol wahoddiad i arsylwi hefyd.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y newyddion trist bod Sue License, y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democraidd wedi marw. Roedd hi'n swyddog uchel ei pharch ac fe dalodd deyrnged i'w phroffesiynoldeb a'i chefnogaeth werthfawr i aelodau. Cofion at ei theulu ar yr adeg drist hon. Atseiniodd Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Meirick Davies y teimladau hynny.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif –

Y Cyngropydd Meirick Davies – Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog

Y Cyngropydd Huw Hilditch-Roberts – Rhiant ar blentyn o Ysgol Brynhyfryd / Llywodraethwr Ysgol Pen Barras

Y Cyngropydd Peter Scott – Llywodraethwr Ysgol Fabanod Llanelwy

Y Cyngropydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn

Y Cyngropydd Mark Young – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych

Datganodd y Cyngropydd Bobby Feeley gysylltiad personol ag eitem 11 ar y Rhaglen – hen Westy'r Savoy a Marchnad y Frenhines, Theatr a Gwesty, y Rhyl oherwydd ei bod yn Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

## **3 MATERION BRYS**

Darparodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Covid-19 yn Sir Ddinbych ar gais yr Arweinydd. Mae'r ffigyrâu diweddaraf yn dangos cynnydd mewn achosion dros y saith niwrnod diwethaf i 25.1 achos i bob 100,000 o'r boblogaeth. Nid oes dystiolaeth ar hyn o bryd o drosglwyddiad cymunedol parhaus, fod bynnag roedd yn sefyllfa oedd yn newid yn gyflym iawn. Roedd y ffigyrâu yn debyg i bedair sir arall Gogledd Cymru, ac o ganlyniad roedd cyfarfod rhanbarthol wedi cael ei alw ar gyfer y diwrnod hwnnw i drafod y sefyllfa. Roedd y cynnydd yng nghyfraddau'r haint yn batrwm cenedlaethol gyda nifer o siroedd dan gyfyngiadau clo lleol ac er bod y sefyllfa'n un bryderus, cafwyd sicrwydd bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio'n agos i fonitro a rheoli'r sefyllfa'n ofalus, a byddai aelodau'n cael eu hysbysu o ddatblygiadau.

## **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2020.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## **5 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B**

Cyflwynodd y Cyngropydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad gan ddarparu diweddarriad ar gynnydd y cynigion a cheisio cymeradwyaeth darpariaeth Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Sir Ddinbych.

Roedd cynigion Band B yn canolbwytio ar fuddsoddiad mewn ysgolion yn ardal Llangollen a Dinbych ynghyd ag ysgol gynradd newydd yn y Rhyl. Ystyriodd y Cabinet ddewisiadau i symud Band B ymlaen ym mis Rhagfyr 2019 a cytunodd i ofyn am gyllid ychwanegol o £15 miliwn gan Lywodraeth Cymru (LIC) a oedd angen cyfraniad cyffredinol o tua £21 miliwn ar gyfer Sir Ddinbych hefyd er mwyn darparu rhaglen o £83 miliwn. Darparwyd manylion o ymateb LIC, a oedd angen rhestr o brosiectau i gael eu blaenoriaethu a darpariaeth y rhaglen mewn dau gam. Byddai

cam cyntaf y prosiect yn cynnwys gwaith ymarferoldeb manwl sy'n eu galluogi i gychwyn, a byddai'r ail gam angen i'r cyngor barhau i drafod eu hachos gyda LIC am adnoddau ychwanegol i sicrhau dewisiadau darparu.

Esboniodd yr Aelod Arweiniol, er bod y rhaglen yn canolbwytio ar yr un ysgol, ni fyddai'n bosib, o wybod bod addasiad i gyllid LIC, i barhau gyda phob prosiect ar yr un pryd. Cynhaliwyd proses flaenoriaethu yn seiliedig ar alw ac fe eglurodd y broses honno ymhellach, yn ogystal â'r rhesymeg tu ôl i drefn flaenoriaethau pob prosiect ysgol unigol. Awgrymwyd y dylid dychwelyd gydag adroddiad pellach i'r Cabinet ymhen 18 mis, o wybod yr angen i roi pwysau ar LIC am ragor o gyllid tuag at y prosiectau yn yr ail gam. Yn nhermau terfynau amser, darparwyd manylion o'r camau amrywiol ac roedd yn bleser nodi y byddai datblygiadau a rheolaeth prosiectau adeiladu carbon isel yn cael effaith gadarnhaol ar ôl troed carbon y cyngor ac yn arwain at arbedion ariannol.

Roedd y Cabinet yn siomedig wrth adrodd na fyddai'n bosibl parhau gyda'r cynigion gwreiddiol fel y cynlluniwyd oherwydd yr addasiad i'r cyllid, ond cytunodd gyda'r ffordd o weithio a amlinellwyd yn yr adroddiad fel y ffordd gorau ymlaen i ddarparu buddsoddiad wedi'i dargedu yn seiliedig ar yr angen, a chroesawodd y buddsoddiad hwnnw mewn ysgolion. Ystyriwyd bod llwyddiant blaenorol y cyngor wrth gyflawni prosiectau yn sylfaen gadarn ac roedd yn cefnogi rhoi pwysau ar LIC am gyllid ychwanegol ar gyfer yr ail gam, ac i adolygu'r sefyllfa mewn 18 mis. Cafodd y mesurau arbed ynni ar gyfer prosiectau ysgolion y cyfeiriodd yr Aelod Arweiniol atynt eu croesawu hefyd. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cyngħorydd Mark Young, cadarnhawyd bod pob Pennaeth wedi cael eu briffio ar y sefyllfa ynghyd ag aelodau lleol, a cafwyd sicrwydd y byddai gohebiaeth yn parhau gydag ysgolion wrth symud ymlaen. Y gobaith oedd datblygu achosion busnes ar ddechrau'r flwyddyn nesaf, ond roedd hyn yn dibynnau ar LIC.

Ymatebodd Aelodau Arweiniol i gwestiynau gan aelodau nad oedd yn rhan o'r Cabinet fel a ganlyn -

- mewn ymateb i'r Cyngħorydd Paul Penlington, esboniwyd bod ysgolion ym Mand B wedi cael eu dewis yn seiliedig ar broses flaenoriaethu o'r angen mwyaf a'r cyflwr cyffredinol.  
Bu buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Uwchradd Prestatyn yn nhermau atgyweirio a gwaith cynnal a chadw, a byddai'r ysgol yn debygol o fod ym Mand C, er, er byddai angen gwneud gwaith i fesur yr effaith ar niferoedd disgylion o ganlyniad i'r buddsoddiad yn ysgolion y Rhyl.
- Cyfeiriodd y Cyngħorydd Emrys Wynne at ddefnydd Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru i gaffael prosiectau, ac roedd yn awyddus bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gwmniau lleol – rhoddwyd sicrwydd bod dros 50% o fusnesau wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru a bod camau wedi cael eu cymryd i alluogi i fusnesau lleol gymryd rhan.  
Roedd rhai prosiectau mwy yn atal busnesau lleol oherwydd capaciti, fodd bynnag roedd cyfran uchel o'r gwaith hwnnw wedi cael ei wneud gan isgontractwyr yn lleol.
- ar argymhelliaid y Cyngħorydd Meirick Davies, cytunwyd i ddiwygio'r argymhellion i gynnwys cyflwyno'r cynigion i Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) cymeradwyo dechrau prosiectau yn Ysgol Plas Brondyffryn / Ysgol Uwchradd Dinbych, Dinbych; Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant, Llangollen ac Ysgol Pendref, Dinbych, fel rhan o'r cam cyntaf o brosiectau ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyflwyno'r cynigion hyn i Lywodraeth Cymru, a
- (b) parhau i geisio cyllid ychwanegol ar gyfer ail gam prosiectau Band B ac adolygu'r sefyllfa ymhen 18 mis i ganfod opsiynau ar gyfer gweithredu rhai o'r prosiectau hyn.

**6 GWAREDU TIR WRTH YMYL YSGOL PENDREF, DINBYCH**

Cyflwynodd y Cyngħorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwaredu tir (cae yn ymestyn i 2.28 hectar / 6.97 erw) wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl.

Roedd y tir arfer bod yn rhan o Ystâd Amaethyddol y Cyngor ac yn cael ei ddefnyddio fel tir gosod tymor byr ar gyfer pori ar hyn o bryd. Cafodd ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol a mabwysiadwyd Briff Datblygu Safle. Cafodd y cae, ynghyd ag un llai wrth ymyl Tan y Sgubor eu meddiannu gan y Cyfrif Refeniw Tai ac roedd y gwaith i adeiladu tai ar y cae llai (ar gyfer cynnal rhent cymdeithasol o fewn y Cyngor) ar fin dechrau yn yr hydref. Oherwydd nifer y tai newydd y mae modd eu codi ar y cae mwyaf, a'r dynuniad i godi mathau a deiliadaethau gwahanol o dai i gwrdd ag anghenion dynodedig ardal Dinbych, cynigiwyd gwerthu'r cae mwyaf er mwyn galluogi datblygiad gan barti allanol. Disgwylir i 20% o'r tai a godir fod yn unedau fforddiadwy a chael eu cynnig i'r Cyngor yn gyntaf am bris wedi'i gadarnhau yn unol â'r Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gyfer tai fforddiadwy.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- bod y ffigwr 20% ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar ddadansoddiad o angen yn ardal Ninbych gan ystyried datblygiadau tai eraill a byddai amod yn cael eu ychwanegu i unrhyw gytundeb gwerthiant bod 20% o dai a adeiledir yn gorfol bod yn dai fforddiadwy ac yn cael eu cynnig i'w gwerthu i'r cyngor yn gyntaf.
- cafodd y tir ei ddyrannu ar gyfer tai yn y CDLI a'i bennu i'r Cyfrif Refeniw Tai, ac o ganlyniad ni fyddai'r polisi blaenorol sy'n cynnwys buddsoddi cyfalaf i'r ystâd amaethyddol wedi bod yn gymwys.
- eglurwyd bod lleoliad y plot llai y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad heb ei arddangos oherwydd ei fod eisoes wedi cael ei drin.
- O ran cwestiynau ynghylch isadeiledd i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol, nodwyd bod Briff Datblygu Safle wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio a bod gwaith o edrych ar yr ysgol heb ei gwblhau eto, ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno.
- oherwydd maint y safle, ychydig o rinweddau fyddai o gael caniatâd cynllunio ymlaen llaw, ac ystyriwyd mai cymeradwyaeth Briff Datblygu Safle fyddai'r dewis gorau, gyda'r datblygwr yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn seiliedig ar eu cynlluniau eu hunain ar gyfer y safle hwnnw gan ystyried y Briff.

- Gofynnodd y Cyngorydd Rhys Thomas bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol diweddaraf a gyhoeddwyd gan LIC yn cael ei ystyried wrth werthu'r safle a bod trafodaeth ar gyd-destun y fframwaith hwnnw a sut y byddai'n effeithio ar safleoedd presennol a rhai'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –**

- (a) *cymeradwyo gwaredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo'r gwerthiant terfynol, a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.*

7

## **ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019-2020**

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ynghyd â'r Adolygiad Perfformiad Blynnyddol ar gyfer 2019-2020, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth a'i gyhoeddi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Cynghorwyd y Cabinet bod yr adroddiad wedi cael ei oedi oherwydd yr amhaliad a achosodd Covid-19 ac o ganlyniad roedd yn trafod chwarter 1 hefyd lle'r oedd gwybodaeth ar gael, gan gynnwys ymateb y cyngor i'r pandemig. Cyflwynodd yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol berfformiad y cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau yn 2019 i 2020; amlinelloedd gynlluniau ar gyfer darpariaeth y Cynllun Corfforaethol yn 2020 i 2021; dangosodd gynnydd prosiectau'r cyngor, ac amlygodd gynnydd y cyngor wrth reoli ei risgiau.

Darparodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol gyflwyniad cryno ar yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol, gan amlygu yr heriau/cyflawniadau allweddol yn sgil Covid-19; diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r meysydd blaenoriaeth corfforaethol; cyfeiriadau at reoli risg, datblygu cynaliadwy a materion cydraddoldeb, ac fe ddarparwyd sicrwydd ynghylch craffu adroddiadau rheoleiddio allanol. Yn gryno, fe wnaeth y cyngor gynnydd da yn erbyn blaenoriaethau, sydd wedi cael eu heffeithio gan Covid-19 er hynny, ac sydd wedi dod â'i heriau. Ychwanegodd bod adolygiad cyfran o flaenoriaethau wedi datgelu eu bod yn berthnasol o hyd wrth adlewyrchu ar anghenion cymunedau er bod angen addasiad efallai. Adroddodd y Prif Weithredwr ar edefyn adfer newydd i adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a chynnydd mewn rhai meysydd sydd wedi cael eu heffeithio – byddai canlyniad yr adolygiad yn cael ei adrodd yn ôl i aelodau. Nodwyd efallai bydd cynllunio i'r dyfodol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd sydd fin cychwyn yn y chwe mis nesaf yn cael ei effeithio gan Covid-19.

Teimlodd yr Arweinydd bod yr adroddiad yn amlygu hyblygrwydd y cyngor wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd ac fe dalodd deyrnged i'r ffordd roedd yr awdurdod wedi ymateb i'r pandemig, gan weithio'n dda gyda chymunedau wrth drin materion, a sut addasodd y gweithlu ei adnoddau mewn cyfnod o bwysau. Roedd yn falch

bod rôl y llywodraeth leol a'i waith i ymateb i'r pandemig wedi cael ei gydnabod gan Llywodraeth Cymru. Er yr holl bwysau, roedd yr awdurdod wedi gallu darparu elfennau allweddol yn nhermau ei flaenoriaethau corfforaethol ac fe amlygodd dau fater sydd angen canolbwytio arnynt ymhellach wrth symud ymlaen (1) cefnogi canol trefi/ardaloedd gwledig o wybod y pwysau economaidd, a (2) buddsoddiad mewn cysylltiad digidol i gyd-fynd ag arferion gweithio sy'n newid.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Talodd y Cyngorydd Bobby Feeley deyrnged i'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Sir Ddinbych Yn Gweithio; cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod gwaith yn cael ei wneud i ystyried sut y gellir darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol o ystyried ei fod yn dibynnu ar gyllid grant.
- mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cyngorydd Meirick Davies, cytunodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol i edrych i mewn i'r geiriad addas i ddisgrifio anheddu gwag, ac i gynnwys esboniad cyffredinol yng nghofrestr y prosiect lle'r oedd prosiectau mewn perygl neu'n profi rhwystrau; cadarnhaodd y Cyngorydd Bobby Feeley mai hi oedd yr Aelod Arweiniol a oedd yn gyfrifol am y prosiect wrth weithio tuag at Gyngor Cyfeillgar i Ddementia (y Swyddog Arweiniol oedd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol) a rhoddodd ddiweddarriad ar y cynnydd.
- Roedd y Cyngorydd Peter Scott yn croesawu prosiect amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer Dwyrain y Rhyl ac amlygodd y gwaith adfer a oedd heb ei gwblhau mewn perthynas â'r Afon Elwy.
- mewn ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Gwyneth Kensler, cadarnhaodd swyddogion bod strategaeth newid hinsawdd drafft yn cael ei datblygu a fyddai'n cynnwys ffyrdd i leihau allyriadau carbon a bu cydnabyddiaeth y byddai angen ystyried sut y byddai'r cyngor yn gwaredu plastigion ychwanegol a ddefnyddiwyd mewn ymateb i Covid-19. Darparwyd manylion o gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau ychwanegol a ysgwyddir gan ysgolion o ganlyniad i'r pandemig.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cadarnhau cynnwys Adolygiad Perfformiad Blynnyddol drafft 2019 i 2020.

Yn y fan hyn (11.30 am) cymerodd y pwylgor egwyl deng munud am luniaeth.

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 20119/2020

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn diweddarau'r aelodau ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac sy'n dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2019/20.

Wrth grynhai'r adroddiad, cyfeiriodd y Cyngorydd Thompson-Hill at bwysigrwydd rheoli'r trysorlys, a'r cefndir economaidd a'i effaith ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Amlygodd y prif bwyntiau ar gyfer aelodau yn nhermau benthyca gyda pob dangosydd darbodus wedi'u nodi, gan fynd â'r aelodau drwy'r dangosyddion hynny fel y manylir yn Atodiad B gan gadarnhau cymarebau addas o ariannu costau a lefelau benthyca o fewn terfynau. Nodwyd bod Llywodraethu

Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio'n monitro'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys a'u bod wedi derbyn yr adroddiad.

Esboniodd Pennaeth Cyllid y rhesymeg dros gymryd dau fenthyciad newydd ar ddechrau'r flwyddyn, a oedd wedi cael eu cymryd oherwydd materion llif arian yn bennaf wrth ddarparu cynlluniau Llywodraeth Cymru. Yn nhermau sicrwydd, roedd rheolir trysorlys wedi cael sgôr sicrwydd uchel gan Archwilio Mewnol. Roedd y cyngor yn cysylltu â'i gynghorwyr trysorlys allanol yn rheolaidd, ac ailadroddwyd y polisi o fenthycia ar y cyfraddau llog lleiaf posib. Roedd y lefel fenthycia bresennol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net ar 6.72% yn cael ei ystyried yn fforddiadwy. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mark Young, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol bod categori newydd wedi cael ei gyflwyno i'r gofrestr risg a oedd yn cynnwys lefel dderbyniol o risg gwahanol faterion, a fyddai'n fach iawn ar gyfer rheoli'r trysorlys.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2019/20 a'i chydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynnyddol 2019/20 (Atodiad 1 yr adroddiad), a
- (b) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).
- rhagwelwyd gorwariant o £5.221m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (nid oedd y gorwariant yn rhagdybio unrhyw grant 'colli incwm' pellach neu geisiadau).
- tynnwyd sylw at y risglau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chyllidebau Model darparu Amgen Hamdden
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad activaraidd teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn).
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Gofynnwyd y Cabinet i gytuno ar sefydlu cronfa wrth gefn fach i helpu i dalu am fuddsoddiad yn safle Carchar Rhuthun i wella'r profiad i ymwelwyr.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn fanwl, yn enwedig o ran effaith ariannol Covid-19, gan gynnwys y cyllid grant a gafwyd hyd yma a'r safle ar hawliau i'r cyngor. Derbyniwyd taliad o £2.6 miliwn i

fynd i'r afael â cholledion incwm i ardaloedd cyffredin ar draws yr awdurdodau ond roedd yn anhysbys a fyddai hawl pellach ar gyfer ystod amrywiol o golledion yn cael ei dalu'n llawn oherwydd bod Llywodraeth Cymru (LIC) wedi pwysleisio'r angen am gysondeb ar draws cynghorau ac i osgoi noddi dewis lleol. Cyhoeddodd LIC £264 miliwn yn ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol i'w cefnogi gyda'r costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd yn sgil pandemig Covid-19 dros weddill y flwyddyn ariannol a disgwylir manylion pellach a chanllawiau o ran hynny yn yr wythnosau nesaf.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid i gwestiynau fel a ganlyn –

- rhoddodd drosolwg o'r ffrydiau cyllid sydd ar gael i Hamdden Sir Ddinbych Cyf ynghyd â threfniadau y cytunwyd arnynt i helpu gyda llif arian.  
Y prif ffynhonnell cyllid oedd cronfa colli incwm LIC ac roedd taliad ar gyfer Chwarter 1 wedi cael ei dderbyn. Gobeithir y byddai'r hawliad ar gyfer Chwarter 2 yn cael ei dalu'n llawn hefyd.
- cafwyd manylion talu £500 o anrheg i weithwyr gofal gan LC a oedd yn cael ei ddyrannu gan y cyngor a bu cynnydd da.  
Roedd bron i bob aelod o staff y cyngor wedi cael eu talu ac roedd trydydd taliad i ddarparwyr allanol ar y gweill, yn dilyn beth fyddai wedi cael ei dalu. Talodd y Cyngorydd Bobby Feeley deyrned i'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol a'r staff am ddarparu'r cynllun yn enwedig o ystyried y diffyg ymgynghori ymlaen llaw.
- eglurwyd bod cytundeb wedi cael ei geisio i'r egwyddor o sefydlu cronfa wrth gefn i helpu i dalu am fuddsoddiad yn safle Carchar Rhuthun a'r bwriad oedd bod y gwasanaeth yn gweithio i ganfod arbedion i gynyddu'r gronfa i £60 mil erbyn 2025; deallwyd bod gwasanaeth gwahanol yn gyfrifol am adfer canol tref ac o ganlyniad nid oedd trosglwyddiad, neu wrth-ymrwymiad rhwng y cyllidebau gwasanaeth hynny – gofynnodd yr Arweinydd am ragor o eglurhad a bod neges e-bost yn cael ei hanfon i'r Cyngorydd Gwyneth Kensler mewn ymateb i'w ymholiad mewn perthynas â hynny.
- o ran ad-dalu'r costau a ysgwyddir ar gyfer darpariaeth cynlluniau LIC, y farn oedd petai'n gynydd go iawn mewn costau, ac nad ellir ei osgoi oherwydd Covid-19, gellir hawlio'r costau, ond byddai pob achos yn cael ei asesu yn ôl ei haediant ei hun.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn*
- (b) *cytuno i sefydlu cronfa wrth gefn fach i helpu i dalu am fuddsoddiad yn safle Carchar Rhuthun i wella'r profiad i ymwelwyr.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Dull arfaethedig o weithio ar gyfer tendro cam 1 / galluogi contract gwaith ar gyfer Estyniad i Ystâd Ddiwydiannol Colomendy – mis Hydref.
- Contract Gwaredu Asbestos (i gael caniatâd i dendro) – mis Hydref.
- Contract Gwaredu Asbestos (dyfarnu'r contract) – mis Rhagfyr

**PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.**

## 11 HEN WESTY'R SAVOY A MARCHNAD Y FRENHINES, THEATR A GWESTY, Y RHYL

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans yr adroddiad hwn wedi'i baratoi i ddiweddaru aelodau ar ddatblygiad y dyfodol o hen Westy'r Savoy a Gwesty a Theatr y Queen's Market, y Rhyl, ynghyd â risgau cysylltiedig, a'r cyllid ychwanegol sy'n ofynnol.

Darparwyd gwybodaeth gefndir mewn perthynas â chaffael y safle a chynlluniau ar gyfer ei ailddatblygu (dros nifer o gamau/cyfnodau) a oedd wedi cael ei ystyried i fod yn hollbwysig i'r adfywiad a llwyddiant economaidd yr ardal yn y dyfodol. Roedd yn canolbwyntio ar gam 1 gyda chamau ychwanegol yn amodol ar adolygiad yng ngoleuni effaith ariannol ac economaidd Covid-19. Darparwyd trosolwg o elfennau'r prosiect yn ymwneud â cham 1 sy'n dangos y buddion i'r ardal hefyd. Roedd amcangyfrifon o'r costau wedi cynyddu'n sylweddol ers yr amcangyfrifiad gwreiddiol gan adael diffyg presennol o £4.3 miliwn, a cafwyd manylion llawn o'r costau o fewn yr adroddiad ynghyd â'r rhesymeg tu ôl i'r cynnydd mewn costau y cafodd eu disgrifio ymhellach yn y cyfarfod. Roedd adolygiad manwl o'r sefyllfa ariannol gyfredol wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd y gellir cyflawni'r prosiect o fewn yr amcangyfrifiad cost diwygiedig. I gadw'r prosiect ar y trywydd iawn ac i alluogi i'r safle gael ei ddymchwel fel mater o argyfwng, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu £1.5 miliwn ychwanegol i'r prosiect. Amlygwyd y risgau oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys gofyniad o £2.8 miliwn pellach y gobeithiwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r arian ychwanegol.

Roedd y Cyngorydd Bobby Feeley yn bryderus i nodi'r sefyllfa bresennol a gofynnodd beth oedd y posiblwydd o gymryd rôl partner datblygu mewnol, efallai gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y byddai'r cynnydd mewn costau wedi digwydd er gwaethaf popeth, a bod gan y partner datblygu cyfredol llwyddiant blaenorol, ac wedi gweithio'n dda gyda'r cyngor ar brosiectau adfywio blaenorol. Oherwydd maint y prosiect, nid oedd gan y cyngor yr adnoddau na'r arbenigedd yn fewnol i'r ddarparu, ac felly ystyriwyd mai partner allanol oedd y dull gorau i fwrr ymlaen â'r prosiect. Nodwyd hefyd efallai bydd cwmpas ar gyfer cynnwys Hamdden Sir Ddinbych Cyf yng nghamau'r prosiect yn y dyfodol, yn amodol ar reolau caffael perthnasol a gweithdrefnau llywodraethu cywir.

Ymatebodd y Swyddog Arweiniol – Rheoli Asedau Strategol i gwestiynau fel a ganlyn:

- nid oedd unrhyw un o'r adeiladau ar y safle'n rhestrredig
- byddai adeilad yn wynebu Sussex Street (a elwir yn Queen's Chambers) o fewn ardal gadwraeth ganol y dref yn cael ei adnewyddu a'i ailwampio fel rhan o'r cynllun cyffredinol a byddai pob adeilad arall yn cael eu dymchwel

- rhoddyd llawer o amser i geisio cynnal yr adeiladau gyda nifer o arolygon yn cael eu cynnal, ond yn anffodus roeddent tu hwnt i'w hadfer yn economaidd.
- roedd gwaith yn parhau i fynd rhagddo gyda'r Gymdeithas Hanes ac eraill gyda'r bwriad o achub unrhyw beth o werth hanesyddol neu ddiddordeb lleol ar y safle.
- Nid oedd yr islawr a'r sianel yn bodoli bellach, a tybiwyd eu bod wedi cael ei dinistrio gan dân yn 1912, a losgodd yr holl adeilad.
- Nid oedd awgrymiad y byddai unrhyw fudd mewn ychwanegu cymal yn y contract dymchwel mewn perthynas ag archeoleg, ond roedd prosesau ar waith petai unrhyw beth o werth archeolegol yn cael ei ganfod yn ystod y gwaith dymchwel.
- ymddiheurwyd bod y Gymraeg a ddefnyddiwyd ar y darluniadau ddim yn cydymffurfio gyda safonau'r iaith ar hyn o bryd a byddant yn cael eu newid.
- byddai angen adolygu camau'r dyfodol yng ngoleuni Covid-19 a byddai angen ystyried lleoliad posib gwasanaethau'r cyngor ar y pryd.

Siaradodd y Cyngorydd Joan Butterfield o blaid yr argymhelliaid a chadarnhaodd bod Grŵp Aelod Ardal y Rhyl wedi craffu ar y rhaglen yn fanwl, ac er y gwerthfawrogir y cyllid sylweddol sydd ei angen a'r risgiau sy'n gysylltiedig, roedd hi'n gyfforddus gyda symud y prosiect ymlaen i elwa'r Rhyl a Sir Ddinbych. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn iawn cael pryderon ac i ddeall y risg, ac ei fod wedi bod yn gyfforddus gyda'r ymatebion a roddwyd mewn ymateb i'r materion a godwyd. O ganlyniad, roedd yn gyfforddus gyda'i argymhelliaid i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo dyrannu £1.5 miliwn o gyllid i'r prosiect i alluogi dymchwel a chwblhau'r broses gynllunio.

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

**PENDERFYNWYD o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972.** Bydd y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar sail y bydd yn cynnwys datgelu gwybodaeth wedi'i wahardd fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

### 12 MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL PARTNERIAETH ADDYSG GYMRAEG YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL

Cyflwynodd y Cyngorwyr Julian Thompson-Hill a Huw Hilditch-Roberts adroddiad cyfrinachol ar y cyd sy'n ceisio cymeradwyaeth i fynd i Gytundeb Partneriaeth Strategol gyda WEPCo Cyf i hwyluso darpariaeth addysg a chyfleusterau cymunedol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi caffaol partner sector preifat i weithio gyda nhw ar ddarparu addysg a chyfleusterau cymunedol yng Nghymru dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Esboniwyd manylion o'r cytundeb partneriaeth a'r buddion i Sir Ddinbych wrth fynd i gytundeb, ac y byddai'n hwyluso defnydd model ariannu Model Buddsoddi Cydfuddiannol os yr ystyriwyd ei fod yn addas i Fandiau buddsoddiad Ysgolion yr 21ain ganrif yn y dyfodol. Cynghorwyd y Cabinet na fyddai cymeradwyaeth o'r adroddiad yn tybio safle ar haediant o'r model ariannu, a byddai unrhyw gynigion yn y dyfodol i ddefnyddio'r dull ariannu hwnnw yn amodol ar sianelau gwneud penderfyniadau priodol y

cyngor. O wybod bod angen llofnodi cytundeb cenedlaethol erbyn 25 Medi, argymhellwyd bod y penderfyniad i ddyfarnu'r contract yn cael ei weithredu'n unswydd.

Ymatebodd swyddogion i gwestiynau yn ymwneud â'r sedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol ac esboniodd y darpariaethau am benderfyniadau brys, fel y nodir yn y cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) cymeradwyo gweithredu, darparu a pherfformiad y Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru ym mis Medi 2020 i hwyluso darparu amrywiaeth o wasanaethau isadeiledd a darparu cyfleusterau addysg a chymunedol;
- (b) cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn Atodiad A yr adroddiad ac fel a gaiff ei grynhau yn Atodiad 1 yr adroddiad er mwyn gweithredu argymhelliad 3.1 yr adroddiad [penderfyniad (a) uchod];
- (c) nodi y caiff y Cytundeb Partneriaeth Strategol ei weithredu fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Adran 12.5.2 y Cyfansoddiad;
- (d) cymeradwyo penodi'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo fel 'Cynrychiolydd Cyfranogol' i fod ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol;
- (e) nodi y caiff unrhyw benderfyniad i barhau â Phrosiect MIM yn y dyfodol ei adrodd yn ôl i'r Cabinet mewn adroddiad(au)'r dyfodol ar gyfer penderfyniad, a
- (f) cytuno bod y penderfyniadau uchod yn cael eu gweithredu yn syth yn unol â rheolau gweithdrefn galw i mewn y Cyngor a'r brys sydd wedi'u cynnwys yn y cyfansoddiad a nodir ym mharagraff 8.1 yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.15.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 5

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>20 Hydref 2020</b>
<b>Cadeirydd y Pwyllgor Craffu:</b>	<b>Y Cynghorydd Huw O Williams (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau)</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Rhian Evans, Cydlynnydd Craffu</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adolygu penderfyniad y Cabinet ynglŷn â gwaredu tir wrth ymwl Ysgol Pendref, Dinbych</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Y casgliadau y daeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau iddynt yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 22 Medi 2020 o safbwynt gwaredu tir wrth ymwl Ysgol Pendref yn Ninbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 Hysbysu'r Cabinet o argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet o safbwynt gwaredu tir wrth ymwl Ysgol Pendref, Dinbych. Adolygyd y penderfyniad hwnnw'n unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor wedi derbyn cais ffurfiol wedi'i lofnodi i adolygu'r penderfyniad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet:

- 3.1 yn cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 22 Medi 2020;
- 3.2 ail edrych ar y penderfyniad a wnaethpwyd ar 22 Medi 2020 gan ystyried y weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy yn y dyfodol fel y nodir yn nrafft y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040';

- 3.3 oedi'r penderfyniad o safbwyt y safle penodol hwn am 12 mis hyd nes y cytunir ar y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd;
- 3.4 ystyried opsiynau i wneud y tir yn fwy atyniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai drwy ei dorri i barseli/plotiau llai o faint; a
- 3.5 peidio creu gorgyflenwad o dai mawr rhy ddrud yn Ninbych nad ydynt yn bodloni'r galw lleol

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Ar 22 Medi 2020 ystyriodd y Cabinet adroddiad ar 'Gwaredu Tir wrth ymwl Ysgol Pendref yn Ninbych'. Gellir gweld yr adroddiad i'r Cabinet yn Atodiad A
- 4.2 Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet:
  - "(a) cymeradwyo gwaredu tir wrth ymwl Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo'r gwerthiant terfynol, a
  - (b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad".
- 4.3 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar wefan y Cyngor ar 24 Medi. Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor ni roddwyd y penderfyniad ar waith yn syth, er mwyn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet i alw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio os oeddynt yn teimlo ei fod yn haeddu archwiliad manylach.
- 4.4 Derbyniwyd negeseuon e-bost 'Hysbysiad o Alw i Mewn' ar gyfer y penderfyniad uchod, gan y nifer ofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, rhwng 30 Medi a 1 Hydref 2020. Roedd hyn o fewn y cyfnod o bum diwrnod gwaith a bennir yn Rheolau Gweithdrefn 'Galw i Mewn' y Cyngor. Y rhesymau dros Alw'r Penderfyniad i Mewn oedd:
  - "1. Dyma fwy o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno sy'n cael ei werthu er mwyn llenwi'r tyllau yn y gyllideb.

- 2: Mae hyd at 300 o dai yn cael ei hadeiladu yn Ninbych Uchaf ar safle Ysbyty Gogledd Cymru a does dim angen mwy o dai sy'n rhy ddrud (gan mwyaf).
- 3: Tir fferm yw'r tir ar hyn o bryd. Dylem fod yn annog mwy o bobl i ffermio. Dydyn ni ddim eto yn gwybod beth fydd effeithiau Brexit ar ddiogelwch bwyd a byddai rŵan yn amser gwirion i waredu'r tir yma.
- 4: Er ei fod yn sôn nad yw'r tir yn addas ar gyfer adeilad newydd i Ysgol Pendref, ychydig iawn iawn o amser yn ôl fe gytunodd y Cabinet i raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ac i gychwyn ymarfer cwmpasu. Ydy hwnnw eisoes wedi ei gwblhau?
- 5: Unwaith mae tir sydd yn berchen i'r bobl wedi ei werthu i fentrau preifat, does dim troi nôl. Sut mae cabinet yn sicr na fydd angen y tir yn y dyfodol.
- 6: Oni ddylem ni fod yn adeiladu mwy o dai cymdeithasol.”
- 4.5 Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, bu'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cais ymhen pum diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn. Er mwyn hwyluso hyn galwyd Pwyllgor Craffu Cymunedol arbennig ar 5 Hydref 2020. Er gwybodaeth mae copi o'r adroddiad hwnnw wedi ei atodi yn Atodiad B.
- 4.6 Cafwyd trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet a'r rhesymau a gyflwynwyd yn y cais i Alw'r Penderfyniad i Mewn. Wedi ystyried yr amrywiol resymau am alw'r penderfyniad i fewn, cydnabu'r Pwyllgor fod y tir wedi ei gyhoeddi'n dir dros ben i ofynion gan Ystad Amaethyddol y Cyngor ers nifer o flynyddoedd. Cydnabu'r pwyllgor hefyd na ellid defnyddio unrhyw gyfalaf a dderbynir o werthu'r tir nac unrhyw ased arall yn gyfreithiol i ariannu gwariant refeniw'r Cyngor nac unrhyw ddiffyg mewn refeniw.
- 4.7 Fodd bynnag roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn deg gofyn i'r Cyngor adolygu ei benderfyniad i waredu'r tir ar sail y nifer o dai a'r mathau o ddatblygiadau tai sydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, neu sydd ar y gweill ar gyfer Dinbych dros y blynnyddoedd nesaf.

- 4.8 Roedd gan y Pwyllgor bryderon y bydd y datblygiadau yn golygu y bydd gan y dref orgyflenwad o dai mawr fydd yn rhy ddrud a dim digon o gyflenwad o dai fforddiadwy ac unedau tai cymdeithasol i fodloni gofynion y trigolion lleol. Mae aelodau'n teimlo y byddai datblygu'r tir wrth ymyl Ysgol Pendref yn gwaethygu'r broblem. Gan gydnabod y byddai rhai tai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu ar y plot hwn o dir fel rhan o unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol, teimlwyd fod y nifer o unedau tai cymdeithasol a fforddiadwy oedd yn cael eu cynnig ar gyfer y datblygiad yn annigonol o ystyried bod y plot penodol hwn o dir wedi ei leoli yn un o'r wardiau cyngor mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac felly y byddai'r rhan fwyaf o'r tai a fyddai'n cael eu hadeiladu yno yn rhy ddrud i drigolion lleol.
- 4.9 Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft o'i fframwaith datblygu cenedlaethol newydd 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040'<sup>1</sup>, y mae'r Senedd yn craffu arno ar hyn o bryd, cyn ei fabwysiadu yn 2021. Unwaith y bydd y fframwaith yma wedi ei fabwysiadu bydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu ar draws Cymru hyd at 2040. Tra bod y Pwyllgor yn cydnabod mai drafft gweithio yw hwn, mae yma bwyslais eglur ar yr angen am dai mwy fforddiadwy ym mhob rhan o Gymru.
- 4.10 Ar y sail hwn mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet ail ystyried ei benderfyniad i werthu'r tir wrth ymyl Ysgol Pendref ar hyn o bryd, ac i ohirio'r penderfyniad i waredu'r tir am ddeuddeg mis, erbyn hynny dylai'r fframwaith 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040' fod wedi ei gymeradwyo gan y Senedd. Unwaith bydd y fframwaith newydd yn ei le gellid gwneud penderfyniad wedyn ar werthu'r tir, yn unol â'r weledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy a nodir yn y fframwaith. Bryd hynny dylid ystyried opsiynau i wneud y tir yn fwy atyniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai drwy ei dorri i barseli/plotiau llai o faint.
- 4.11 Mae Craffu yn gofyn i'r Cabinet ail ystyried y penderfyniad a wnaeth ar 22 Medi 2020 o safbwynt gwaredu'r tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych, ac wrth wneud hynny ystyried y sylwadau a'r argymhellion uchod.

---

<sup>1</sup> 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040': <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/docfen-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft-gweithio-fersiwn-medi-2020.pdf>

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu casgliadau'r broses Craffu.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## **10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Dylai adolygiad Craffu o benderfyniad gwreiddiol y Cabinet liniaru yn erbyn unrhyw risgiau Cyngor yn y dyfodol gan heriau allanol i'r penderfyniad.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Adrannau 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

11.2 Adran 7.4.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n datgan "Gall Pwyllgorau Archwilio adolygu a chraffu ar [benderfyniadau'r Cabinet]" ac Adran 7.4.2(d) sy'n datgan y gall y Pwyllgor "[wneud] argymhellion i'r Cabinet... sy'n deillio o ganlyniadau'r broses archwilio."

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod** 22 Medi 2020

**Aelod/Swyddog Arweiniol** Y Cyng. Julian Thompson-Hill

Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

**Awdur yr adroddiad** Mair Jones, Prif Syrfeŵr Prisio ac Ystadau

Mark Dixon, Rheolwr Datblygu Tai

**Teitl** Gwaredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â gwerthu budd rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn cae a oedd yn arfer bod yn rhan o Stad Amaethyddol y Cyngor er mwyn codi tai newydd. Mae'r cae dan sylw wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych ac yn 2.82 ha (6.97 erw).

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1 Oherwydd bod gwerth y tir ar y farchnad gyda meddiant gwag yn fwy na £1,000,000 mae'n rhaid i'r Cabinet wneud y penderfyniad er mwyn cydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor.

## **3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo gwaredu'r tir gwarged wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych fel y dangosir yn goch ar y cynllun yn Atodiad A ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl ac yn dirprwyo awdurdod i Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol gymeradwyo'r gwerthiant terfynol; a

3.2 Bod aelodau'r Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les sy'n Atodiad B fel rhan o'r ystyriaethau.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae'r cae dan sylw wedi bod yn rhan o Stad Amaethyddol y Cyngor ond fe ddaeth yn ôl i'n dwylo - yn amodol ar ddarpariaethau tenantiaeth tymor byr, gyda'r bwriad o'i ddatblygu neu ei werthu yn y dyfodol. Tir pori yw'r tir ar hyn o bryd ac mae'n cael ei osod dan drefniant tymor byr.

4.2 Cafodd y cae ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn y CDLI presennol dan bolisi BSC1 (Creu Cymunedau Cynaliadwy - Strategaeth Dwf Sir Ddinbych). Ar 15 Mawrth 2017 mabwysiadodd Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Frîff Datblygu Safle fel Canllaw Cynllunio Atodol.

4.3 Cafodd y cae hwn, ynghyd â chae llai wrth ymyl Tan y Sgubor, ei adfeddu i Gyfrif Refeniw Tai y Cyngor. Bydd y contractwyr yn dechrau codi 22 tŷ rhent cymdeithasol, a fydd yn cael eu cadw gan y Cyngor, ar safle Tan y Sgubor yn yr hydref. Oherwydd nifer y tai newydd y mae modd eu codi ar y cae mwyaf, a'r dymuniad i godi mathau a deiliadaethau gwahanol o dai i gwrdd ag anghenion dynodedig ardal Dinbych, byddai'n fwy priodol gwerthu'r cae mwyaf er mwyn galluogi datblygiad gan barti allanol. Disgwylir i 20% o'r tai a godir fod yn unedau fforddiadwy a chael eu cynnig i'r Cyngor yn gyntaf am bris wedi'i gadarnhau yn unol â'r Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gyfer tai fforddiadwy.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys blaenorriaeth i sicrhau y cefnogir pawb i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r Strategaeth Dai a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2015 yn cynnwys cam gweithredu i adolygu tirddaliadau'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai er mwyn penderfynu a ydynt yn addas ac ar gael i godi datblygiadau tai fforddiadwy ac, os felly, i sefydlu rhaglen glir ar gyfer eu darparu. Bydd y penderfyniad hwn yn cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Dai, drwy alluogi datblygwr i godi cartrefi newydd gan gynnwys cyfran o dai fforddiadwy i gwrdd â'r angen am y math yma o lety yn yr ardal.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd priswyr a chyfreithwyr y Cyngor yn mynd i gostau wrth waredu'r tir a bydd y Cyngor hefyd yn mynd i gostau wrth i asiantau allanol ddelio â'r gwerthiant. Bydd y costau hyn yn cael eu cwrdd yn defnyddio derbyniad cyfalaf y gwerthiant.

6.2 Bydd effaith y datblygiad dilynol ar yr amgylchedd yn cael ei asesu drwy'r broses gynllunio.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

